# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 22 Chwefror 2018.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Siôn Ifans, Paul Hughes, Deryck Lewis, S Gareth Owen, Aeron Pughe, Gwenfair E Rhys-Davies, Geraint Wigley a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Aled O Griffiths, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Iwan Pughe Jones, Gwen Lloyd, William N Owen a Huw M Williams.

**18.09. Datganiadau o diddordeb.**
Dim.

**18.10. Cofnodion cyfarfod 25 Ionawr 2018.**
Eglurodd Cyng Gareth Owen ddylai eitem 18.05.02 darllen "Mr Glenn Ward" yn hytrach na "Mr Glenn Webb". Fel arall, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**18.11. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar y phrosiect pibellau dwr.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Darllenodd y Clerc e-bost newydd gan Ms Kim Kehoe, Dwr Cymru, yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyda'r ymchwiliad ynglyn a gorsaf pwmpio yng Nghwmlline. Mynegodd Cyng Dafydd Evans pryder fod y gwaith ymchwilio yn cael ei wneud ar adeg y blwyddyn pan mae'r maes carafannau a'r tai haf yn wag. Cytunwyd codi'r pwynt yma gyda Dwr Cymru.
17.57.7. Problemau gyda sefyllfa audit y Cyngor. Rhoddodd y Clerc diweddariad a chadarnhaodd ei fod wedi ymateb i'r llythr diweddar yn gofyn am rhagor o wybodaeth.
17.73.1. Cyflwr llochesi bws yn y Cymuned. Cadarnhaodd Cyng Paul Hughes fod angen glanhau lloches bws Cemaes yn ogystal a'r lloches yng Nglantwymyn. Ychwanegodd Cyng Deryck Lewis fod angen glanhau'r lloches yng Nghwmlline hefyd. Cytunwyd gofyn am pris i glanhau pob lloches heblaw am yr un pren yn Llanwrin.
18.08.4. Problem gyda'r nant yn gorlifo yn Llanwrin. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa ac eglurodd fod Cyng William Owen wedi cwrdd gyda Ms Dunya Fourie o Gyngor Sir Powys i edrych ar y problemau.
18.08.5. Problem gyda gwyneb y ffordd ar cylchfan Glantwymyn. Cadarnhawyd fod y problem yna wedi cael ei thrwsio.
18.08.6. Pryderon am dyfodol Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd angen gwneud dim byd ar hyn o bryd ond cadw golwg ar y sefyllfa.

**18.12. Cynllunio.**
Dim.

**18.13. Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
13.1. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa gyda newid y mandate gyda Banc Barclays ac eglurodd ei fod yn disgwyl cael cadarnhad yn fuan fod y mandate newydd wedi cael ei dderbyn. Cytunwyd gwneud y taliadau angenrheidiol unwaith mae'r cadarnhad yma wedi cael ei dderbyn.
13.2. Cais m arian gan Neuadd Glantwymyn. Cytunwyd rhodd o £1,500-00.
13.3. Cyflog y Clerc am Misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2017. Cytunwyd taliad o £750-00.
13.4. Taliad i Un Llais Cymru am hyfforddiant. Cytunwyd taliad o £40-00.
13.5. Taliad I Mr Wyn Evans am gofalu am y Cof Golofn. Cytunwyd taliad o £50-00.
13.6. Taliad i'r Clerc am torch i Sul y Cofio. Cytunwyd taliad o £20-00.
13.7. Taliad i Mr Glenn Ward am torri gwair yn y mynwentydd. Cytunwyd taliad o £1,400-00.
13.8. Cyflog y Clerc am Misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2018. Cytunwyd taliad o £750-00.
13.9. Taliad i Un Llais Cymru am aelodaeth. Cytunwyd taliad o £198-00.

**18.14. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
14.1. Cyngor Sir Powys. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan fod y Cyngor Sir wedi llwyddo gosod cyllideb ond mi fydd rhaid i'r Cyngor gwneud rhagor o doriadau i gwasanaethau i arbed arian. Eglurodd hefyd ei fod wedi gofyn am cyfarfod gyda Canolfan y Dechnoleg Amgen ynglyn a nifer o materion.
14.2. Neuadd Glantwymyn. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod yna problemau gyda'r to a'r goleuadau fydd angen sylw. Mae yna hefyd problemau gyda'r llawr yn yr Ysgol Feithrin.
14.3. Gwefan Cyngor Cymuned Glantwymyn. Cafwyd diweddariad gan Cyng Sion Ifans yn cadarnhau fod cofnodion y Cyngor ar gael ar y gwefan erbyn hyn.
14.4. Fforwm Cleifion. Eglurodd Cyng Gwenfair Rhys-Davies fod y fforwm wedi clywed fod y system ffon newydd yn y Canolfan Iechyd yn gweithio'n dda. Gobeithir cael gwefan newydd i Ysbyty Bronglais yn fuan ac mae'r ysbyty yn gobeithio sefydlu Gwasanaeth Addysg newydd i nyrsiau.

**18.15. Gohebiaeth.**
15.1. Llythr gan Mr Jim Griffiths, Clerc Cyngor Tref Machynlleth, yn ofyn am cyfraniad ariannol tuag at gwasaneth sbwriel eitemau mawr ar Dydd Sadwrn ym Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu yn ol i Mr Griffiths nad oedd arian ar gael yn y cyllideb tuag at hyn. Cytunwyd hefyd gofyn os fyddai'n bosib cael gohebiaeth yn y Gymraeg yn y dyfodol.
15.2. E-bost gan Mr Mark Gahan ynglyn rhaglen "Dyfodol Gwledig". Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ymestyn gwahoddiad i Mr Gahan rhoi cyflwyniad i cyfarfod nesaf y Cyngor.
15.3. E-byst ynglyn cyfle i cwrdd gyda aelodau Panel yr Adolygiad Annibynnol ynglyn a dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn mynychu'r cyfarfod.
15.4. E-bost gan Mr Lee Evans, Cyngor Sir Powys, gyda manylion Datganiad i'r Wasg ynglyn a newid diwrnodau casglu biniau.
15.5. E-bost gan Mr Paul Egan, Un Llais Cymru, gyda cyngor ynglyn a rhoi swm yn y cyllideb ar gyfer taliadau i Cynghorwyr. Atgoffodd y Clerc y Cynghorwyr ei bod wedi ystyried hyn wrth gosod y cyllideb a phenderfynwyd nad oedd angen swm ar gyfer hyn ar hyn o bryd.
15.6. E-bost gan Mr Jarred Gethin, Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda diweddariad ar prosiect BETWS i ddymchwel coed cyferbyn a phentref Ceinws.
15.7. E-bost gan Mr Jason Plange, Llywodraeth Cymru, ynglyn a dileu ffioedd am claddu plant.
15.8. E-bost gan Ms Kate Lawrence, Cyngor Sir Powys, ynglyn a newidiadau i'r gwaith papur sydd angen os mae'n rhaid llenwi sedd ar Chyngor Leol.
15.9. E-bost gan Me Kate Lawrence, Cyngor Sir Powys, ynglyn a chyfle i cael copi o'r rhestr etholwyr newydd. Cytunwyd gofyn am gopi ar bapur.
15.10. E-bost gan Mr Russell George AC gyda diweddariad ar phrosiect ffordd osgoi Drenewydd.
15.11. E-bost gan Mr Russell George AC gyda newyddion Mis Chwefror 2018.

**18.16. Unrhyw fater arall.**
16.1. Problemau gyda ffordd Tanllan. Eglurodd Cyng Geraint Wigley fod yna problemau gyda dwr yn tasgu i lawr Ffordd Tanllan yn Darowen oherwydd mae angen sylw i'r ffosydd. Cytunwyd dod ar sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.
16.2. Problem gyda'r palmant yn Cwmlline. Eglurodd Cyng Deryck Lewis fod y palmant ar hyd ochr y ffordd fawr yn y dibyn yng Nghwmlline yn llithrig ac yn angen sylw. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw yr Adran Priffyrdd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 29 Mawrth 2018.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 26 Ebrill 2018.**